**Tasg 1**

# Bendigeidfran, Llywelyn ac Iolo

**CWIS!**

*Ceisiwch ateb cymaint ag y gallwch chi o'ch cof!*

1. Beth oedd enw chwaer Bendigeidfran?

2. Edrychwch ar y frawddeg, "I dorri stori hir iawn yn fyr, aeth pethau'n ffradach rhwng y ddwy wlad." Allwch chi aralleirio'r frawddeg?

3. Claddwyd pen Bendigeidfran mewn lle o'r enw Gwynfryn yn Llundain. Beth sydd yno heddiw?

4. Ym mha chwedl y cewch chi hanes Bendigeidfran yn llawn?

5. Beth yw'r ddau enw rydyn ni'n eu defnyddio wrth sôn am Llywelyn, tywysog olaf Cymru?

6. Ym mha flwyddyn y cafodd Llywelyn ei gydnabod yn dywysog Cymru?

7. Ym mha flwyddyn ac ym mhle y lladdwyd Llywelyn?

8. Beth mae'r gair "concro" yn ei olygu?

9. Beth oedd enw brenin Lloegr oedd yn gyfrifol am farwolaeth Llywelyn ac am goncro Cymru?

10. Beth ddigwyddodd i ben Llywelyn?

11. Allwch chi egluro'r gwahaniaeth rhwng "Cymru" a "Cymry"?

12. Ym mha flwyddyn y ganwyd Iolo Morganwg?

13. Beth yw ystyr y gair "ymddiddori"?

14. Mewn beth yr oedd Iolo Morganwg yn ymddiddori?

15. Beth sefydlodd Iolo Morganwg yn 1792?

16. Ym mhle y digwyddodd hyn?

GWYBODAETH BELLACH:

*Efallai bydd yn rhaid gwneud ymchwil ar gyfer yr atebion hyn ...*
*Beth am ddefnyddio [cy.wikipedia.org](http://cy.wikipedia.org) i chwilio yn Gymraeg?*

17. Beth oedd enw brawd arall Branwen, yr un wnaeth dorri gwefusau a chlustiau ceffylau Matholwch i ffwrdd?

18. Beth oedd enw plentyn Branwen, a beth ddigwyddodd iddo?

19. Beth oedd enw dau frawd Llywelyn ap Gruffudd (Llywelyn ein Llyw Olaf)?

20. Beth wnaeth Llywelyn yn 1255?

21. Beth oedd enw iawn Iolo Morganwg?

22. Beth yw enw llawn Gorsedd y Beirdd?